

Llawdriniaeth ddargyfeiriol allgreuanol i fewngreuanol ar gyfer atherosclerosis mewngreuanol

22 Tachwedd 2017

Ni ddylid defnyddio'r driniaeth hon. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n ddiogel ac nad yw'n gweithio ar gyfer atherosclerosis mewngreuanol.

Mewn afiechyd ymenyddol-fasgwlaidd, mae pibellau gwaed yn y pen neu'r gwddf yn culhau neu'n cael eu blocio'n rhannol, sy'n cyfyngu ar y cyflenwad gwaed i'r ymennydd. Mewn llawdriniaeth ddargyfeiriol allgreuanol i fewngreuanol, caiff pibell waed o'r tu allan i'r penglog ei chysylltu â phibell y tu fewn i'r penglog, gan ddargyfeirio'r bibell dan sylw. Y nod yw gwella llif y gwaed i'r ymennydd a helpu i atal strôc.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am opsiynau triniaeth eraill.

Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-2720-3